**PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU'R AMGYLCHEDD**
**10 RHAGFYR 2019**

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Trosolwg a Chraffu’r Amgylchedd Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd yn Neuadd y Sir, yr Wyddgrug, ddydd Mawrth, 10 Rhagfyr 2019.

**YN BRESENNOL: Y Cynghorydd Patrick Heesom (Cadeirydd)**
Y Cynghorwyr: Mike Allport, Sean Bibby, Chris Dolphin, Andy Dunbobbin, George Hardcastle, Cindy Hinds, Dennis Hutchinson, Joe Johnson, Vicky Perfect, Paul Shotton ac Owen Thomas

**DIRPRWY:** Y Cynghorydd: Mike Peers (ar ran Veronica Gay)

**YMDDIHEURIADAU:** Y Cynghorwyr: David Evans a Ray Hughes

**ARSYLWYR:** Roedd y Cynghorydd Ian Roberts, Arweinydd y Cyngor ac Aelod Cabinet Addysg yn bresennol fel arsylwr, ynghyd â’r Prif Weithredwr a’r Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd.

**CYFRANWYR:** Y Cynghorydd Carolyn Thomas, Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet Strydwedd a Chefn Gwlad; Y Cynghorydd Chris Bithell, Aelod Cabinet Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd; Y Cynghorydd Glyn Banks, Aelod Cabinet Cyllid; Prif Swyddog (Cynllunio, yr Amgylchedd a’r Economi); a’r Prif Swyddog (Strydwedd a Chludiant).

Rheolwr Cyllid Corfforaethol – ar gyfer cofnod rhif 46

Rheolwr Darparu Gwasanaeth, Priffyrdd a Gwastraff (Katie Wilby) a Rheolwr Gwasanaethau Rheoleiddio (Ruth Cartwright) – ar gyfer cofnod rhif 47 a 48

Peiriannydd Arbed Ynni (Sadie Waterhouse) - ar gyfer cofnod rhif 50

**HEFYD YN BRESENNOL:** Hwylusydd Trosolwg a Chraffu yr Amgylchedd a Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

## 42. SYLWADAU AGORIADOL

Darllenodd yr Hwylusydd Trosolwg a Chraffu yr Amgylchedd ddatganiad am y cyfyngiadau o ran trafodaethau mewn cyfarfodydd yn ystod cyfnod yr Etholiad.

## 43. DATGAN CYSYLLTIAD

Dim.

## 44. COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Tachwedd 2019.

Cofnod rhif 37: Gofynnodd y Cynghorydd Shotton fod y cofnodion yn cynnwys ei gwestiwn am bwyntiau gwefru cerbydau trydan yn Sir y Fflint.

Diolchodd i swyddogion am yr ymateb a chroesawodd y pwyntiau gwefru ychwanegol a ddarparwyd gan Goleg Cambria.

Cofnod rhif 38: Gofynnodd y Cadeirydd a oedd cofrestr o ffyrdd heb eu mabwysiadu yn Sir y Fflint. Dywedodd y Prif Swyddog (Strydwedd a Chludiant) fod y Cyngor yn cael ei gynrychioli ar weithgor a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru (LIC) i lunio rhestr genedlaethol o ffyrdd heb eu mabwysiadu ar draws Cymru. Dywedodd y Cynghorydd Carolyn Thomas fod cydweithwyr LIC yn ystyried newidiadau polisi o ran ffyrdd heb eu mabwysiadu mewn datblygiadau newydd.

Yn amodol ar y newid, cynigiwyd y cofnodion i'w cymeradwyo gan y Cynghorydd Bibby ac eiliwyd gan y Cynghorydd Shotton.

**PENDERFYNWYD:**

Yn amodol ar y newid, cymeradwyo'r cofnodion fel cofnod cywir a'u llofnodi gan y Cadeirydd.

## 45. RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL A THRACIO CAMAU GWEITHREDU

Cyflwynodd yr Hwylusydd y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol presennol a'r wybodaeth ddiweddaraf am gamau gweithredu a oedd yn codi o gyfarfodydd blaenorol. O ran Gorfodi Amgylcheddol, dywedodd y byddai'r polisi yn cael ei anfon i Gynghorau Tref a Chymuned pan fyddai wedi'i gymeradwyo gan y Cabinet a bod Datganiad y Gyllideb ar fin cael ei ddosbarthu.

Roedd y Pwyllgor yn cefnogi'r awgrym y dylai Newid Hinsawdd fod yn bwnc ar gyfer gweithdy i'r holl Aelodau ym mis Chwefror 2020. Gofynnodd y Cadeirydd bod unrhyw gwestiynau yn cael eu cyflwyno iddo o flaen llaw.

Gofynnodd y Cynghorydd Peers a oedd y pum cwestiwn 'prawf arwyddocâd' a ddefnyddir i nodi eitemau ar gyfer rhaglenni'r dyfodol yn berthnasol i bob pwyllgor ac a oeddent wedi'u cynnwys yn y Cyfansoddiad. Awgrymodd fod chweched cwestiwn yn cael ei gynnwys o ran a oedd y mater yn berthnasol i'r cyhoedd neu i Aelodau. Cefnogwyd awgrym yr Hwylusydd, sef bod hyn yn cael ei gyfeirio i'r Cyfansoddiad a'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd.

Cafodd yr argymhellion, a newidiwyd i adlewyrchu'r drafodaeth, eu cynnig gan y Cynghorydd Peers ac fe'u heiliwyd gan y Cynghorydd Hardcastle.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Cymeradwyo'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol, gan gynnwys y gweithdy Aelodau am Newid Hinsawdd ym mis Chwefror;

(b) Bod yr Hwylusydd, wrth ymgynghori gyda Chadeirydd y Pwyllgor, yn cael ei awdurdodi i amrywio'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol rhwng cyfarfodydd, yn ôl yr angen;

(c) Bod y Pwyllgor yn nodi'r cynnydd sydd wedi'i wneud o ran y camau gweithredu sydd heb eu cwblhau; a

(d) Bod yr awgrym am chweched cwestiwn 'prawf arwyddocâd' yn adran 1.02 yr adroddiad yn cael ei gyfeirio i'r Cyfansoddiad a'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd.

**46. <u>STRATEGAETH ARIANNOL TYMOR CANOLIG: CYLLIDEB REFENIW CRONFA'R CYNGOR 2020/21</u>**

Cyflwynodd y Rheolwr Cyllid Corfforaethol adroddiad am y rhagolwg ariannol presennol ar gyfer 2020/21 ynghyd ag arbedion effeithlonrwydd a phwysau cost ar draws portffolios. Amlygwyd cynigion penodol ar gyfer y portffolio i'w hadolygu. Ers yr adroddiad i'r Cabinet ym mis Ebrill, roedd y 'bwlch' cyffredinol amcanol yng ngofynion ariannu'r Cyngor ar gyfer 2020/21 wedi cynyddu £2.854m i £16.174m.

Roedd yr adroddiad hefyd yn nodi'r sefyllfa genedlaethol a dewisiadau a oedd ar gael er mwyn i'r Cyngor sicrhau cyllideb gytbwys. Roedd arbedion effeithlonrwydd arfaethedig ar gyfer pob portffolio wedi'u rhannu gydag Aelodau mewn gweithdy yn ystod yr haf. Ers hynny, nid oedd dewisiadau eraill wedi'u cyflwyno. Roedd y sefyllfa grynodeb gyffredinol hyd yma yn dangos cyfraniad sylweddol o £8-8.5m tuag at y bwlch yn y gyllideb a oedd yn cynnwys arbedion effeithlonrwydd ac incwm corfforaethol a phortffolio (£1.784m), incwm sy'n deillio o ddarpar gynnydd 5% mewn Treth y Cyngor (£4.38m) a'r swm sydd ar gael i'r Cyngor o adolygiad Actiwaraidd a oedd bron â'i gwblhau (£2m). Y dewisiadau eraill – yn dibynnu ar ganlyniad cyllideb Llywodraeth Cymru (LlC) – oedd adolygiad pellach o gyfraniadau cyflogwr y Gronfa Bensiynau, rhannu pwysau cost gydag ysgolion a chynnydd Treth y Cyngor uwchlaw'r rhagdybiaeth weithredol. Roedd y Setliad Dros Dro i gael ei gyhoeddi ar 16 Rhagfyr, gyda'r Setliad Terfynol wedi'i gadarnhau ar gyfer 25 Chwefror; o bosibl ar ôl i'r Cyngor osod ei gyllideb derfynol ar gyfer 2020/21.

Gofynnodd y Cynghorydd Peers a oedd adolygiad o wasanaethau ymhlith y datrysiadau eraill oedd ar gael i fantoli'r gyllideb. Nododd fod y darpar gynnydd 5% mewn Treth y Cyngor angen Setliad gwell o lawer, a dywedodd bod angen dewisiadau amgen i osgoi sefyllfa debyg i'r sefyllfa ym mhroses y gyllideb ar gyfer 2019/20. Soniodd hefyd am yr incwm amcanol o feysydd parcio, lle roedd rhai ardaloedd wedi rhagori ar lefelau amcanol ac roedd eraill yn is na thargedau'n gyson. Ychwanegodd na ddylid cyfrif taliadau gwastraff gardd fel arbediad effeithlonrwydd, oherwydd roedd costau yn cael eu trosglwyddo i breswylwyr.

Gan ymateb, dywedodd y Rheolwr Cyllid Corfforaethol fod yr holl arbedion effeithlonrwydd gwasanaeth wedi'u cynnwys yng nghynlluniau busnes portffolios ac y byddai'n anodd gweithredu unrhyw beth newydd ar y cam hwn. O ran y cynnydd yn Nhreth y Cyngor, er disgwyliwyd Setliad cadarnhaol gan LlC, nid oedd yn glir a fyddai'n ddigonol. Byddai rhagor o fanylion am yr opsiynau sydd ar gael yn cael eu hadrodd i'r Cyngor yn ddiweddarach yn y dydd. O ran y disgownt person sengl ar gyfer Treth y Cyngor, disgwyliwyd y byddai adolygiad a oedd ar y gweill yn cynhyrchu incwm ychwanegol yn ystod 2019/20 a 2020/21. Roedd y

Rheolwr Cyllid Corfforaethol yn cydnabod yr angen i wahaniaethu rhwng arbedion effeithlonrwydd cost a chynhyrchu incwm.

Dywedodd y Cynghorydd Carolyn Thomas fod penderfyniad wedi'i wneud ar ôl cyflawni arbedion effeithlonrwydd, i beidio â thorri rhagor o wasanaethau i osgoi'r effaith ar breswylwyr.

Gofynnodd y Cadeirydd am eglurhad o ran cyfraniadau o Newid Sefydliadol a'r effeithlonrwydd o incwm o waith allanol.

Dywedodd y Prif Swyddog (Strydwedd a Chludiant) fod cydnabod anhawster canfod rhagor o arbedion effeithlonrwydd, y tu hwn i'r rhai a nodwyd eisoes, wedi arwain at newid ffyrdd o weithio i gynhyrchu incwm. Byddai rhagor o wybodaeth yn cael ei rhannu yn ddiweddarach am archwilio cyfleoedd o'r fath mewn gwasanaethau drwy newidiadau diwylliant neu Fodelau Darparu Amgen. O ran incwm o waith allanol, darparodd y Prif Swyddog eglurhad am y manteision o'r ddarpariaeth fflyd allanol drwy un contractwr, gan arwain at gerbydau mwy newydd a llai o gostau cynnal a chadw.

Gan ateb cwestiwn y Cadeirydd, dywedodd y Rheolwr Cyllid Corfforaethol y byddai'r dull cynhyrchu incwm yn cael ei ddefnyddio ar draws holl wasanaethau'r Cyngor.

Dywedodd y Cynghorydd Banks mai'r nod oedd diogelu gwasanaethau craidd ac nad oedd Aelodau wedi cyflwyno awgrymiadau am unrhyw arbedion effeithlonrwydd eraill. Atgoffodd bawb nad oedd y casgliad gwastraff gardd yn wasanaeth gorfodol, a bod y taliadau yn cynnig gwerth am arian i breswylwyr.

Cynigiodd y Cynghorydd Shotton gymeradwyo'r argymhellion yn yr adroddiad ac eiliwyd hyn gan y Cynghorydd Dunbobbin.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Cymeradwyo'r cynigion am arbedion effeithlonrwydd Strydwedd a Chludiant a Chynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi ar gyfer 2020/21; a

(b) Cymeradwyo'r pwysau cost Strydwedd a Chludiant a Chynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi a argymhellwyd i'w cynnwys yn y gyllideb ar gyfer 2020/21.

## 47. CANLYNIAD PROSES YMGYNGHORI ADOLYGIAD Y STRATEGAETH WASTRAFF

Cyflwynodd y Cynghorydd Carolyn Thomas adroddiad i geisio argymhelliad i'r Cabinet gymeradwyo newidiadau i'r gwasanaeth casglu deunydd ailgylchu a gwastraff yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus. Diolchodd i breswylwyr am weithio gyda'r Cyngor i gynnal y perfformiad cryf o ran ailgylchu, sef y trydydd gorau yng Nghymru ar hyn o bryd.

Eglurodd y Rheolwr Gwasanaethau Rheoleiddio fod yr argymhellion yn ystyried mwy nag 8,000 o ymatebion i'r ymgynghoriad, yn adlewyrchu newidiadau i'r strategaeth genedlaethol ac yn ceisio rhagor o welliant o ran perfformiad

ailgylchu i gyrraedd targedau yn y dyfodol. Er nad oedd cefnogaeth ar hyn o bryd o ran newid amlder casgliadau bin du, roedd 32% o breswylwyr wedi dweud nad oeddent yn sicr a fyddent yn ymdopi pe bai newid o'r fath yn digwydd. Argymhellwyd bod y dewis hwn yn cael ei adolygu eto ymhen 12 mis i ddeall effaith newidiadau gan Lywodraeth Cymru (LlC) i'r strategaeth genedlaethol. Roedd y cynnig am ragor o orfodaeth wedi'i gefnogi'n eang, gyda rhai preswylwyr yn cydnabod yr angen am atebolrwydd.

Dywedodd y Prif Swyddog (Strydwedd a Chludiant) mai nod y cynigion oedd cyflawni effaith gadarnhaol drwy newidiadau o ran ymddygiad. Wrth gydnabod pryderon o ran rhagor o orfodaeth, roedd y dull tri cham yn caniatáu ar gyfer hysbysu ac addysgu i ddechrau, gyda chamau ffurfiol yn cael eu cymryd ar gyfer achosion parhaus o ddiffyg cydymffurfio. Roedd ystadegau presennol yn dangos pa mor effeithiol oedd y broses wrth helpu preswylwyr i ddeall a dilyn y system. Ymhlith y newidiadau arfaethedig eraill roedd rhaglen addysg i breswylwyr, treial casgliadau Cynnyrch Hylendid Amsugnol a ariennir gan LlC, adolygiad o lwybrau casglu gwastraff a gwahanu deunydd ailgylchu cardfwrdd a phapur i gynhyrchu incwm ychwanegol.

Dywedodd y Cynghorydd Carolyn Thomas y dylid annog preswylwyr i ailgylchu rhagor o wastraff bwyd a'i bod yn gallu ymweld ag ysgolion a chymunedau i godi ymwybyddiaeth o'r newidiadau arfaethedig. Soniodd hefyd am ymgyrch genedlaethol i gynyddu addysg am ailgylchu.

Er ei fod o blaid rhagor o orfodaeth i'r rhai sy'n methu ailgylchu dro ar ôl tro, dywedodd y Cynghorydd Peers fod rhaid ystyried unrhyw ffactorau sy'n cyfrannu at hyn, er enghraifft oedran neu broblemau iechyd. Gofynnodd a oedd digon o gapasiti mewn criwiau casglu gwastraff i gynnal y rhestr fonitro ar gyfer ailgylchu a ddylai fod yn seiliedig ar dystiolaeth. Dywedodd y Rheolwr Gwasanaethau Rheoleiddio na ddylai fod unrhyw effaith ar y criwiau a bod enwau preswylwyr yn cael eu tynnu oddi ar y rhestr fonitro pan nad oedd angen camau gorfodi bellach. Nodwyd preswylwyr diamddiffyn sy'n cael problemau gydag ailgylchu ac roedd proses ar waith i dargedu cefnogaeth briodol. Gan ymateb i gwestiynau pellach, eglurwyd y byddai casgliadau Cynnyrch Hylendid Amsugnol yn adlewyrchu'r casgliadau gwastraff meddygol presennol gyda bag ar wahân. Roedd gwahanu papur a chardfwrdd yn newid gweithredol a adlewyrchwyd drwy adborth i'r ymgynghoriad hefyd a byddai'n cael ei gyflwyno mewn camau.

Cododd y Cynghorydd Hardcastle bryderon fod rhai preswylwyr hŷn neu ddiamddiffyn yn ansicr sut i ailgylchu a gallent fod yn pryderu am orfodaeth bosibl. Siaradodd o blaid y cynigion ond mynegodd bryderon am y posibilrwydd y gallai deunydd ailgylchu gael ei roi mewn bin du cymydog ar ddamwain.

Atgoffodd y Prif Swyddog yr Aelodau am ganlyniadau trafodaeth am y Strategaeth Wastraff yng nghyfarfod mis Hydref. Dywedodd y byddai'n adrodd yn ôl am bryderon y Cynghorydd Hardcastle a rhoddodd enghreifftiau lle roedd aelwydydd a oedd angen cymorth wedi'u nodi ac wedi cael sylw gan swyddogion, oherwydd addysg oedd y flaenoriaeth yn hytrach na rhoi rhybuddion cosb benodedig. O ran goblygiadau o ran adnoddau, nodwyd bod y ffigur a ddyfynnwyd sef £70K yn cynnwys cost y cerbyd a gorbenion ar gyfer y ddau swyddog Gorfodi ychwanegol.

Yn ystod y drafodaeth, canmolodd Aelodau'r ymarfer ymgynghori helaeth, y canlyniad o ran amlder casgliadau bin du a'r canolbwynt ar addysg.

Diolchodd y Cynghorydd Dunbobbin i aelodau'r cyhoedd a oedd wedi ymateb i'r arolwg. O ran y broses ymgynghori, cadarnhawyd bod barn gweithredwyr Strydwedd wedi'i chynnwys drwy sesiynau briffio yn y gweithle.

Croesawodd y Cynghorydd Bibby ganlyniadau'r adroddiad hefyd a rhannodd enghraifft lle roedd swyddogion wedi darparu cefnogaeth i breswyliwr diamddiffyn mewn modd gofalgar a sensitif.

Siaradodd y Cynghorydd Dolphin o blaid cael gwared ar gasgliadau dydd Sul a chamau gorfodi cadarn. Cyfeiriodd at effaith gollwng sbwriel y tu allan i eiddo a darpariaeth ddigonol ar gyfer storio papur wedi'i rwygo sy'n barod i'w gasglu. Darparodd y Cynghorydd Carolyn Thomas gyngor am y ffordd orau o storio deunydd ailgylchu i wneud y mwyaf o le yn y biniau.

Gan ymateb i sylwadau gan y Cynghorydd Owen Thomas am leihau deunydd pecynnu gormodol, cyfeiriodd y Cynghorydd Carolyn Thomas at ymgynghoriad gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru am gyfrifoldeb cynhyrchwyr.

Ailadroddodd y Cynghorydd Hutchinson yr angen i gefnogi pobl ddiamddiffyn ar draws pob math o lety, a'r angen i addysgu pobl am y ffordd gywir o ailgylchu. Dywedodd y Rheolwr Gwasanaethau Rheoleiddio y byddai dosbarthu taflenni i bob preswyliwr yn ffurfio rhan o'r rhaglen addysg.

Wrth ddiolch i swyddogion am yr adroddiad, anogodd y Cadeirydd yr Aelodau a oedd yn llywodraethwyr ysgol hefyd i godi ymwybyddiaeth o'r cynigion mewn ysgolion.

Cynigiodd y Cynghorydd Bibby gymeradwyo'r argymhellion yn yr adroddiad ac eiliwyd hyn gan y Cynghorydd Shotton.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Nodi'r ymatebion i'r ymarfer ymgynghori cyhoeddus ar Strategaeth Wastraff y Cyngor; a

(b) Argymell bod y Cabinet yn cymeradwyo'r newidiadau i'r gwasanaeth ailgylchu a chasglu gwastraff a nodir yn yr adroddiad.

## 48. CYNIGION AR GYFER GWELLIANNAU SEILWAITH YNG NGORSAF TROSGLWYDDO GWASTRAFF STANDARD YARD

Cyflwynodd y Cynghorydd Carolyn Thomas adroddiad a oedd yn cynnwys cynigion i uwchraddio'r Orsaf Trosglwyddo Gwastraff bresennol yn Ystâd Ddiwydiannol Standard ym Mwcle oherwydd twf sylweddol o ran galw prosesu. Roedd yr Orsaf Trosglwyddo Gwastraff yn galluogi gwahanu a didoli deunydd ailgylchu cyn cael eu hanfon ymlaen i'w prosesu. Roedd yr adroddiad yn nodi cynigion ariannu ac yn ceisio cymeradwyaeth gan y Cabinet i barhau â'r prosiect.

Dywedodd y Rheolwr Darparu Gwasanaeth, Priffyrdd a Gwastraff, fod y cynigion wedi'u llywio gan yr ymarfer ymgynghori gwastraff gan gynnwys gweithredwyr oedd yn gweithio ar y safle. Byddai'r cynigion yn gwella mynediad a chyfleusterau a chreu canolfan addysgol wrth ddatrys problemau logistaidd ar y safle hefyd. Y nod ar y cam hwn oedd cael cymeradwyaeth wleidyddol cyn bwrw ymlaen â dyluniad y datblygiad.

Gan ymateb i gwestiynau gan y Cadeirydd, dywedodd y Cynghorydd Carolyn Thomas nad oedd potensial i rannu'r Orsaf Trosglwyddo Gwastraff oherwydd bod gan gynghorau cyfagos eu cyfleusterau eu hunain.

Diolchodd y ddau Aelod lleol, y Cynghorydd Hutchinson a'r Cynghorydd Peers, i'r Rheolwr Darparu Gwasanaeth am gyfarfod â nhw a rhoi'r cyfle iddynt roi adborth. Er bod y ddau yn cefnogi'r angen am fuddsoddiad ar y safle, mynegodd y Councillor Peers nifer o bryderon a oedd eisoes wedi'u rhannu â swyddogion. Cwestiynodd hyfywedd adleoli'r Cyfleuster Adennill Deunydd presennol i Faes Glas a gofynnodd lle roedd y problemau o ran offer yn torri i lawr wedi'u hadrodd. Credai fod y ffordd fynediad newydd arfaethedig oddi ar Globe Way yn ddiangen ac awgrymodd fod y ffordd bresennol yn cael ei defnyddio yn lle hynny (wedi'i marcio â saethau ar y cynllun) er mwyn osgoi torri'r adeilad i ffwrdd. Felly cynigiodd fod yr argymhelliad cyntaf yn cael ei newid i nodi'r cynnig "mewn egwyddor" i wella'r safle.

Wrth groesawu adborth, mynegodd y Prif Swyddog (Strydwedd a Chludiant) barodrwydd i drafod dewisiadau ar gyfer datblygu'r safle i sicrhau ei hyfywedd yn y dyfodol. Dywedodd fod y materion cynnal a chadw wedi cynyddu dros amser wrth i'r offer heneiddio.

Eglurodd y Rheolwr Darparu Gwasanaeth mai bwriad adleoli'r Cyfleuster Adennill Deunydd oedd darparu cadernid fel cyfleuster wrth gefn yn unig i gynyddu capasiti ym Maes Glas.

Anogodd y Cynghorydd Shotton y Cyngor i fanteisio ar gyfleoedd ariannu gan Lywodraeth Cymru pan fyddant ar gael.

Cafodd yr argymhellion, fel y'i diwygiwyd, eu cynnig gan y Cynghorydd Peers ac fe'u heiliwyd gan y Cynghorydd Hutchinson.

**<u>PENDERFYNWYD:</u>**

(a) Nodi'r cynigion, mewn egwyddor, ar gyfer datblygu Gorsaf Trosglwyddo Gwastraff Standard Yard; a

(b) Argymell bod y Cabinet yn cymeradwyo'r ceisiadau cyllid arfaethedig a'r buddsoddiad sydd ei angen ar gyfer Gorsaf Trosglwyddo Gwastraff Standard Yard.

**49.** **DEDDF LLYWODRAETH LEOL (MYNEDIAD I WYBODAETH) 1985 – YSTYRIED GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD:**
Eithrio'r wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod gan fod yr eitem ganlynol yn cael ei hystyried yn wybodaeth wedi'i heithrio yn rhinwedd paragraff 14 Rhan 4 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd).

**50.** **ACHOSION BUSNES TERFYNOL PANELI SOLAR FFOTOFOLTÄIG SAFLE TIRLENWI Y FFLINT AC IARD CRUMPS**

Cyflwynodd y Cynghorydd Bithell adroddiad am yr achosion busnes terfynol ar gyfer cynigion i ddatblygu datblygiadau paneli solar ffotofoltäig ar ddau safle tir llwyd (Safle Tirlenwi'r Fflint ac Iard Crumps) yn dilyn casgliad gweithgareddau dwys cyn-datblygu. Roedd caniatâd cynllunio wedi'i roi ar gyfer y datblygiad yn Safle Tirlenwi'r Fflint, a disgwyliwyd penderfyniad am Iard Crumps ar ddechrau'r Flwyddyn Newydd. Amlinellodd y Cynghorydd Bithell y prif ystyriaethau o'r adroddiad gan gynnwys nifer o fanteision ariannol ac amgylcheddol o'r cynllun a fyddai'n cyfrannu at flaenoriaethau lleol a chenedlaethol.

Dywedodd y Prif Swyddog (Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi) fod yr adroddiad yn darparu gwybodaeth dechnegol ac ariannol fanwl am y cynllun.

Cyflwynwyd y Peiriannydd Arbed Ynni (Sadie Waterhouse) i'r Pwyllgor, a ddarparodd eglurder o ran y goblygiadau ariannol, gofynion contract a buddion cymunedol. Yn dilyn cais gan y Cadeirydd, cytunodd i ddosbarthu cynlluniau lleoliad safle i'r Pwyllgor.

Dywedodd y Cadeirydd y byddai Aelodau'n croesawu rhagor o fanylion am y buddion cymunedol. Siaradodd y Prif Swyddog am newid o ran y strategaeth gaffael i sicrhau buddion amgylcheddol ehangach.

Ar ran y Pwyllgor, diolchodd y Cadeirydd i swyddogion am yr adroddiad a chroesawodd ei gyfraniad cadarnhaol tuag at newid hinsawdd.

Cynigodd y Cynghorydd Shotton gymeradwyo'r argymhelliad, ac fe'i heiliwyd gan y Cynghorydd Dunbobbin.

**PENDERFYNWYD:**

Cefnogi'r Prosiect a'r Achos Busnes ar gyfer datblygu Iard Crumps, Cei Connah, a Safle Tirlenwi'r Fflint ar gyfer defnydd solar ffotofoltäig ar y ddaear.

**51.** **AELODAU O'R CYHOEDD A'R WASG YN BRESENNOL**

Roedd un aelod o'r wasg yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 9.30am a daeth i ben am 11.50am)

…………………………
**Y Cadeirydd**